Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

Penderfyniad a wnaed gan:

Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth

Dyddiad y penderfyniad:

9 Medi 2021

Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:

9 Medi 2021

Penderfyniad:

I gymeradwyo contract newydd cynllun byw â chymorth yn Llangollen.

Bwriad y penderfyniad:

Y penderfyniad yw bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo dyfarnu contract i'r darparwr llwyddiannus yn dilyn ymarfer tendro i benodi sefydliad i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddau unigolyn sydd ag anableddau dysgu a fydd yn denantiaid yn byw mewn cynllun byw â chymorth yn Llangollen, Sir Ddinbych.

Rhesymau dros wneud y penderfyniad:

Ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i Valorum Care Group (1st Enable).

Mae Canllawiau Ariannol (Rheolau Gweithdrefn Gontractau) Cyngor Sir Ddinbych yn nodi y dylai'r broses o dendro am gontractau sy'n werth dros £1miliwn gael cymeradwyaeth Aelod Arweiniol.

Cysylltiadau a ddatganwyd:

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

Ymgynghoriad:

Ymgynghorwyd â'r unigolion a'u teuluoedd/eiriolwyr sydd wedi'u nodi i symud i'r eiddo. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd gyda staff CSDd, cydweithwyr o BIPBC, darparwyr a chynrychiolwyr o Adrannau Cyfreithiol a Chaffael Cyngor Sir Ddinbych.

Fel rhan o’r broses gaffael, bydd teuluoedd yr unigolion a fydd yn defnyddio'r gwasanaethau yn rhan o werthuso'r tendrau a gyflwynir.

Yr awdurdod i ddirprwyo’r penderfyniad i’r Aelod Cabinet:

Gweler y Cynllun Dirprwyo.